Foreign, Commonwealth & Development Office

**Y Tîm Gohebiaeth Gweinidogion a Swyddogion**

King Charles Street
London
SW1A 2AH

**E-bost:** **fcdo.correspondence@fcdo.gov.uk**

**www.gov.uk/fcdo**

Mair Eirian Roberts (CG)

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

Ein cyf: TO2023/24909

18 Rhagfyr 2023

Annwyl Mair Eirian Roberts (CG),

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr ynglŷn ag Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palestina (OPTs). Gofynnwyd i'r Tîm Gohebiaeth Gweinidogion a Swyddogion yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) ymateb i chi.

Mae trasiedi ddynol yn digwydd yn y Dwyrain Canol. Mae Israel wedi dioddef yr ymosodiad terfysgol gwaethaf yn ei hanes ac mae dinasyddion yn Gaza yn dioddef argyfwng dyngarol enbyd sy'n gwaethygu. Mae'r DU yn condemnio'r gweithredoedd terfysgaeth gan Hamas yn erbyn dinasyddion Israel a dinasyddion rhyngwladol. Nid yw Hamas yn siarad ar ran nac yn gweithredu er budd pobl Palestina. Ynghyd â'r Unol Daleithiau, mae'r DU wedi targedu Hamas gyda chyfres newydd o sancsiynau mewn ymdrech i darfu ar weithredoedd terfysgaeth y grŵp. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n cynghreiriaid i ddarparu cymorth dwys, ymarferol a pharhaus sydd ei angen i gynnal Awdurdod Palestina, gan mai hwy yw'r trywydd gorau i gael gwared ar erchylltra Hamas a phob difrod yn eu sgil.

Mae'r DU yn cefnogi hawl Israel i amddiffyn ei hun yn erbyn terfysgaeth yn unol â chyfraith ddyngarol ryngwladol. Rydym wedi pwyso ar Israel i sicrhau bod ei ymgyrch yn cael ei dargedu yn erbyn arweinwyr ac isadeiledd milwrol Hamas; i adael cymorth i mewn i Gaza; i roi diwedd ar drais gan setlwyr ac i ddal troseddwyr i gyfrif ac i weithio gyda'r Cenhedloedd Unedig a Phwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch (ICRC) i wella'r sefyllfa ddyngarol enbyd. Mae'n hanfodol bod yr holl bartïon yn sicrhau bod eu gweithredoedd yn gymesur, yn gwbl angenrheidiol gan leihau'r niwed i ddinasyddion.

O'r cychwyn, rydym wedi dweud ein bod eisiau i ddinasyddion Prydeinig allu gadael Gaza ac i gymorth dyngarol allu cyrraedd Gaza. Roeddem yn croesawu'r oediad diweddar yn yr ymladd, ond mae arnom angen difrifol am ragor o seibiau dyngarol er mwyn cael yr holl wystlon allan ac i gael cymorth achub bywyd i mewn i Gaza er mwyn lleddfu dioddefaint pobl Palestina. Rydym wedi bod yn gyson wrth gefnogi cadoediad cynaliadwy sy'n golygu bod rhaid i Hamas stopio lawnsio rocedi i mewn i Israel a rhyddhau'r holl wystlon. Rydym yn parhau i bwyso – ar y CU ac yn uniongyrchol gydag Israel – am fynediad dyngarol

dirwystr a chytundebau dyngarol cadarn, niferus a fydd yn ei gwneud yn bosib i gymorth ddod i mewn ac i ddinasyddion Prydeinig adael.

Rydym wedi cyhoeddi £30 miliwn pellach mewn cymorth dyngarol i achub bywydau ar gyfer pobl yn Gaza. Bydd y cymorth yn mynd i bartneriaid y gallwn ymddiried ynddynt, gan gynnwys asiantaethau'r CU sydd yn Gaza. Daw hyn â chyfanswm y cymorth ychwanegol gan y DU i bobl Palestina i dros £60 miliwn ers i'r argyfwng ddechrau ym mis Hydref.

I atal rhagor o ryfela a therfysgaeth, mae'n rhaid cael datrysiad gwleidyddol parhaus i'r anghydfod rhwng Israel a Phalestina; datrysiad dwy-wladwriaeth sy'n darparu heddwch, cyfiawnder a diogelwch i Israeliaid a Phalestiniaid.  Bydd y DU yn gweithio ar frys gyda'n partneriaid i sicrhau bod y weledigaeth hon yn dod yn realiti o'r diwedd. Rydym hefyd yn erfyn ar y ddwy ochr i ostwng y tensiwn ar y Lan Orllewinol a thaclo pob ffurf o eithafiaeth. Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw ymgais gan ddrwg-weithredwyr (*malign actors*) i waethygu pethau ymhellach yn y rhanbarth.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog, rydym yn buddsoddi'n ddyfnach mewn sefydlogrwydd rhanbarthol ac yn y datrysiad dwy-wladwriaeth. Mae'r Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Tramor, a'r Arglwydd Ahmad, Gweinidog Gwladol ar gyfer y Dwyrain Canol, wedi siarad, yn hollbwysig, gyda'u cyfatebwyr ar draws y rhanbarth i danlinellu'r angen i weithio gyda'n gilydd ac atal yr anghydfod rhag lledaenu ymhellach. Mae hyn yn cynnwys Brenin Iorddonen, Arlywydd yr Aifft, Prif Weinidog Israel, Arlywydd yr Awdurdod Palestinaidd, Abbas, Arlywydd Twrci, Emir Qatar, Tywysog Sawdi Arabia ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Ysgrifennydd Tramor wedi siarad ar wahân gyda Gweinidog Tramor Israel, Gweinidog Tramor yr Awdurdod Palestinaidd ac Ysgrifennydd Gwladol yr UD; a chafodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Tramor gyfarfodydd pellach gyda chyfatebwyr rhanbarthol yn COP 28 yn Dubai ddiwedd mis Tachwedd.

Ar 22 Tachwedd fe wnaeth yr Ysgrifennydd Tramor a'r Arglwydd Ahmad gynnal cyfarfod i Weinidogion Tramor o bum gwlad Arabaidd ac Islamaidd yn Llundain. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Tramor ymweld ag Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palestina ar 22-24 Tachwedd, ac yn ystod yr ymweliad hwnnw fe ategodd gefnogaeth y DU i Israel amddiffyn ei hun rhag Hamas yn unol â Chyfraith Ddyngarol Ryngwladol; i’r angen dwys i gael cymorth dyngarol pellach i mewn i Gaza; ac fe wnaeth ymgysylltu ar faterion dybryd eraill megis sefyllfa’r gwystlon yn Gaza a'r tensiynau cynyddol yn ardal y Lan Orllewinol. Yn ystod ei ymweliad fe gyfarfu â Phrif Weinidog Israel, Benjamin Netanyahu, Gweinidog Tramor Israel, Eli Cohen, ynghyd â gweinidogion Israelaidd eraill. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Tramor hefyd ymweld â Ramallah yn Nhiriogaethau Meddianedig Palestina lle cyfarfu ag Arlywydd yr Awdurdod Palestinaidd, Mahmoud Abbas, a Phrif Weinidog yr Awdurdod Palestinaidd, Mohammad Shtayyeh – trafododd gydag ef gefnogaeth barhaus y DU i'r Awdurdod Palestinaidd a datrysiad dwy-wladwriaeth.

Fe wnaeth yr Arglwydd Ahmad siarad gyda Chynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ym mis Hydref a chyflwynodd ymyrraeth y DU mewn cyfarfod o'r Cyngor Diogelwch yn Gaza ar 29 Tachwedd, lle galwodd am seibiau dyngarol er mwyn cael y gwystlon allan a chymorth i mewn, ac eglurodd ein hymgysylltiad i bwyso am: ymateb dyngarol mwy helaeth, cynnydd ar y datrysiad dwy-wladwriaeth a gweithredu ystyrlon ar drais gan setlwyr. Mae'r Arglwydd Ahmad wedi cyfarfod neu siarad gyda chynrychiolwyr o'r Cenhedloedd Unedig, Israel, Yr Aifft, Iorddonen, UAE, yr Awdurdod Palestinaidd, Twrci, Qatar, Sawdi Arabia, Moroco, Bahrain a Lebanon.  Fe wnaeth yr Arglwydd Ahmad ymweld ag Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palestina ar 1-2 Tachwedd; Qatar ar 18-19 Tachwedd; a chafodd gyfarfodydd pellach gyda gwledydd

Arabaidd a Sefydliad y Gynhadledd Islamaidd (Organisation of the Islamic Conference) ar 29 Tachwedd. Fe wnaeth hefyd deithio i Qatar ar 10-11 Rhagfyr: i drafodaethau ar yr argyfwng hwn.

Ym mhob un o'n trafodaethau gyda chyfatebwyr Israelaidd, rydym wedi pwysleisio cred bendant y DU

fod gan Israel yr hawl i amddiffyn ei hun yn unol â Chyfraith Ddyngarol Ryngwladol. Mae gan Israel ddyletswydd i warchod dinasyddion ac rydym wedi galw ar Israel i gymryd yr holl ragofalon posib yn y cyswllt hwn. Mae ein safbwynt ar gyfraith ryngwladol yn gwbl bendant. Rydym yn parhau i'w gwneud yn glir i'r holl bartïon y dylid cymryd pob mesur posib i leihau nifer y cleifion sifil ac i hwyluso cymorth dyngarol i'r bobl yn Gaza. Mae'r Prif Weinidog wedi codi'n uniongyrchol gyda'i gyfatebwyr Israelaidd yr angen i weithredu’n unol â Chyfraith Ddyngarol Ryngwladol. Mae'r Arlywydd Israelaidd Herzog hefyd wedi dweud y bydd Israel yn glynu at gyfraith ryngwladol.

Yr unig ffordd y gellir cael heddwch, diogelwch a sefydlogrwydd i Israeliaid a Phalestiniaid fel ei gilydd yw trwy ymdrech unedig a chydweithio tuag at ddatrysiad dwy-wladwriaeth; Israel ddiogel, yn byw ochr yn ochr â gwladwriaeth Palestina sy'n annibynnol, yn ddiogel ac yn hyfyw.

Yn gywir,

**Y Tîm Gohebiaeth Gweinidogion a Swyddogion, Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu**